
Ysgol Dewi Sant

Cylchlythyr 24.01.2020



Sŵ Gaer

Chester Zoo



Cawsom hwyl a sbri Dydd Llun yn Sŵ Gaer. Cawsom weld anifeiliaid y byd a chymeryd rhan mewn gweithdy ddiddorol. "*Fy hoff beth i am y diwrnod oedd mynd i ogof yr yslymod a gweld y mwnciod*" - Miley Davies Bl 5.



We had lots of fun on Monday in Chester Zoo. We saw animals of the world and took part in an interesting workshop. *"My favourite part of the day was going to the bat cave and seeing the monkeys".* - Miley Davies Yr 5.





















RSPB

Aeth Blwyddyn 1 ar drip i RSPB Conwy yr wythnos yma. Bu'r plant yn brysur iawn yn dysgu am wahanol fathau o adar yn ogystal â defnyddio deunyddiau naturiol o'r goedwig i wneud gwaith creadigol wedi ei ysbrydoli gan waith Andy Goldsworthy.

Year 1 went on a trip this week to RSPB Conwy. The children had a great time learning about different birds and also using natural materials from the woodland to do some creative work inspired by Andy Goldsworthy's work.





Mi fydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau hanner tymor ar **Ddydd Gwener, Chwefror 14eg** ac yn ail-agor **Dydd Llun Chwefror 24ain.**

The school will be closing for half term on **Friday ,14th February** and re-opening on **Monday,24th February**.

Neges pwysig / Important Message

Urdd

Urdd

Cofiwch bod dyddiad cau cofrestru i gystadlu ar gyfer yr Eisteddfod eleni ar **Chwefror y 4ydd.** Mae angen bod yn aelod o'r Urdd cyn cofrestru i gystadlu.

Please remember that the closing date to register for the Eisteddfod this year is the **4th of February.** You must be a member of the Urdd before registering to compete.

Presenoldeb wythnos yma / This week's attendance

Meithrin / Nursery	88.7%
Derbyn / Reception	91%
Blwyddyn 1 / Year 1	92.3%
Blwyddyn 2 / Year 2	95.2%
Blwyddyn 3 / Year 3	95.6%
Blwyddyn 4 / Year 4	94.7%
Blwyddyn 5 / Year 5	94.1%
Blwyddyn 6 / Year 6	93.5%

Disgo Santes Dwynwen

Fel rhan o ein hwythnos entrepreneuriaeth/busnes, cafodd Ddosbarth Trellewelyn (blwyddyn 5) y syniad o drefnu disgo Santes Dwynwen i bawb. Wnaethant drefnu pob dim o gostau, goleuadau, cerddoriaeth, amseroedd cynnal y disgo, staffio'r digwyddiad a'r lluniaeth!

As part of our entrepreneur/business week, Dosbarth Trellewelyn (year 5) had the idea of arranging a Santes Dwynwen disco for everyone. They arranged everything from, costs, prizes, lighting, music, times, staffing and refreshments.

Diolch yn fawr am eich holl waith!



Bydd yr Eisteddfod yn ymweld â'r ardal rhwng Mai 25 a 30 eleni.
Enw'r diwrnod yw Cariad@yrUrdd i gyd-fynd gyda Dydd Santes Dwynwen ar Ionawr 25ain.
Mae Eisteddfod yr Urdd yn wyl deithiol sy'n denu tua 90,000 o ymwelwyr yn flynyddol; cyfle ardderchog i blant o bob gornel yng Nghymru arddangos eu talentau! Mi wnaethom fanteisio o'r diwrnod Cariad@yrUrdd trwy godi ymwybyddiaeth ein disgyblion o neges ewyllys yr Urdd fel mudiad a thrafod y cyfleoedd mae'r Urdd yn ei gynnig i bob aelod!

The Urdd Eisteddfod will be visiting our area between May 25th and 30th this year!
Today in Ysgol Dewi Sant we celebrated Cariad@yrUrdd day which coincides with Saint Dwynwen's Day.
The Eisteddfod is festival that travels from year to year to different areas in Wales and welcomes around 90,000 visitors each year!



A brilliant opportunity for children in Wales to show their talents!
We took advantage of this day by raising the pupil's awareness of the good will message behind the Urdd as an organisation and discussed the opportunities given to each child who are members of the Urdd.





Fel rydych eisoes yn ymwybodol o waith Ddosbarth Trellewelyn yn trefnu'r disgo Santes Dwynwen, wnaeth y dosbarth hefyd creu cynllun busnes. Heddiw, cafodd blwyddyn 5 y cyfle i dderbyn gweithdy gan HSBC er mwyn dod i ddeall mwy am fusnesau, cynilo, gwariant ayyb.
Maent wedi penderfynu gyda'r elw fyddent wedi gwneud o'r disgo, eu bod eisiau prynu adnoddau i amser chwarae er mwyn sicrhau bod yr ysgol gyfan yn elwa o'r digwyddiad!
Diolch yn fawr Dosbarth Trellewelyn, edrychwn ymlaen at glywed beth rydych am brynu!

As you're already aware of Dosbarth Trellewelyn's work arranging the Santes Dwynwen disco, the class also created a business plan. Today, year 5 had the opportunity to receive a workshop from HSBC to develop their understanding about setting up businesses, saving and expenditure etc.
Dosbarth Trellewelyn have decided with their profit from the disco, that they would like to buy resources for playtime which ensures that all of the children gain from the event!
Thank you Dosbarth Trellewelyn, we look forward to hearing what you have decided to purchase!

Wythnos Busnes / Business Week

Rydym wedi cael wythnos prysur iawn yma yn Ysgol Dewi Sant gyda'r disgyblion i gyd o Ddosbarth Derbyn hyd at Fl.6 wedi cael blas ar fyd busnes. Maent wedi edrych ar fusnesau lleol, deall gwerth arian, sut i greu elw ac wedi cynllunio'n ofalus busnes eu hunain. Hoffwn ddiolch i Mrs Lynda Szekely o gwmni Tropic, Mr Timothy Parry o gwmni Mug Run a hefyd i Miss Linda Thomas a Miss Karen Williams o HSBC am ddod mewn atom i siarad am eu busnesau hwy a'r pwysigwrydd o gynilo arian, mae hyn yn brofiadau gwerthfawr i'n disgyblion.
Diolch hefyd i ddisgyblion Bl5 dosbarth Tre Llewelyn am drefnu disgo gwerth chweil prynhawn 'ma, diweddglo perffaith i'r wythnos.

We've been very busy this week with all our pupils from Reception to Year 6 having a taste of business life. They have been looking at local businesses, understanding the value of money , how to make profit and has carefully planned their own business. I would like to thank Mrs Lynda Szekely from Tropic, Mr Timothy Parry from Mug Run and also Miss Linda Thomas and Miss Karen Williams from HSBC for coming to school to talk about their own business and the importance of saving money.
Thank you also to Year 5 pupils, Tre Llewelyn class for organising a brilliant disco this afternoon, a fantastic end to our week.

I sylw rieni / gwarchodwyr disgyblion CA2
For the attention of parents / guardians of KS2 pupils

Mae hi wedi dod i'n sylw bod llawer o ddisgyblion CA2 yn dod a'u ffonau symudol i'r ysgol. Mae'r **rhan fwyaf** o ddisgyblion yn dda iawn am roi y ffonau i'r swyddfa ble maent dan glo trwy'r dydd, ond yr hyn sydd yn ein pryderu mwyaf yw'r defnydd o'r ffonau symudol fel mae'r disgyblion yn cyrraedd a gadael yr ysgol. Rydym yn deall bod llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn cerdded adref ac angen eu ffonau, ond rydym yn gofyn yn garedig i chwi fel rhieni sicrhau nad ydynt yn dod a'u ffonau i'r ysgol yn ddi-angen. Mae nifer o achosion pryderus o gam-ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol wedi dod i'n sylw yn ddiweddar, rydym yn eich annog fel rhieni i fonitro defnydd o'r apps yma gan eich plentyn.

It has come to our attention that many pupils for KS2 are bringing their mobile phones to school. **Most** pupils are very good for handing the phones in at the office at the start of the day where they are kept locked during school hours. But what is most concerning is the misuse of the devices as pupils are arriving and leaving the school. We fully understand that some pupils walk home and therefore need a mobile phone with them, but we are kindly asking you as parents that they do not bring phones to school without reason. Numerous worrying events have been brought to our attention regarding the misuse of social media by pupils. We urge you as parents to monitor your child's use of social media on phones and other devices.



Tip Eco yr wythnos
Eco Tip of the week

Create a 30-minute rule. If your journey is under 30 minutes; walk or ride your bike.

Dilynwch y rheol 30-munud. Os mae eich siwrne yn cymryd llai na 30 munud, ystyriwch gerdded neu reidio beic.

Oddi wrth y Clwb Eco.

Dilynwch ni ar Drydar

Follow us on Twitter

@YsgolDewiSant

1,679 o ddilynwyr!

1,679 followers!